**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddTai@senedd.cymru

8 Ebrill 2022

Annwyl John

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar 29 Mawrth ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau (“y Bil”). Mae fy ymateb i ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor i’w weld isod.

Roeddwn yn falch o ddarllen bod y rhan fwyaf o aelodau’r Pwyllgor o’r farn y dylai’r Senedd gydsynio i gynnwys y darpariaethau y manylir arnynt yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) yn y Bil. Rwy’n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch defnyddio deddfwriaeth y DU yn hytrach na Bil Senedd Cymru. Fodd bynnag, rwy’n parhau i fod o’r farn mai’r Bil hwn sy’n darparu’r ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer pobl Cymru o gyflwyno mesurau diogelu priodol cyn gynted â phosibl, gan sicrhau system reoli gadarn a llwybr i unioni’r sefyllfa pan fo pethau’n mynd o chwith.

Mewn perthynas â’r Ombwdsmon Cartrefi Newydd, nodaf fod *“rhai Aelodau hefyd yn cwestiynu honiad Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Atodol Rhif 3 y byddai natur drawsffiniol darpariaethau’r Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn fwy gwerthfawr na chynllun penodol i Gymru yn unig”.* Rwyf innau o’r farn mai natur drawsffiniol darpariaethau’r Ombwdsmon Cartrefi Newydd, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ar draws y DU, fydd yn sicrhau’r ymateb gorau. Ni fydd gweithredu systemau gwahanol ar draws gwahanol rannau o’r DU yn helpu i leihau’r cymhlethdod i berchnogion cartrefi. Bydd cael dull safonol, a roddir ar waith ar adeg benodol ar draws pob rhan o’r DU, yn lleihau’r dryswch i’r rheini sy’n prynu cartrefi ac i ddatblygwyr fel ei gilydd.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.